



Cystadleuaeth i blant ysgol

Y FLOG FEDDYGOL

Creu flog (fideo blog) Cymraeg rhwng 3-5 munud o hyd ar unrhyw bwnc meddygol sy'n eich diddori. Fe allai hyn fod yn sôn am eich profiad personol, profiad aelod o'r teulu neu ffrind o salwch neu driniaeth neu fe allech drafod eich barn am y gwasanaeth iechyd. Unrhyw beth sy'n werth trafod o'ch safbwynt chi.

Dylid danfon y flog drwy ddefnyddio meddalwedd neu ap WeTransfer (rhad ac am ddim) at heno@tinopolis.com erbyn 5yp ar ddydd Gwener 14eg o Orffennaf 2017. Dylid cynnwys caniatâd gan riant neu warchodwr gyda phob cais. Gweler gwefan www.ygymdeithasfeddygol.cymru am fanylion llawn.

Bydd dau enillydd, un o oed ysgol Gynradd ac un o oed ysgol Uwchradd yn derbyn **gwobr** o **£150** yr un a chyfle i gyflwyno eu gwaith ar Pnawn da gyda Dr Ann. Hefyd bydd y deg gorau ym mhob categori (Cynradd ac Uwchradd) yn cael eu dangos ym mhabel Y Gymdeithas Feddygol ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol Bodedern 2017 ac yn cael cyfle i drafod eu gwaith gyda Dr Ann ac aelodau o'r Gymdeithas.

Pob lwc i chi gyd!



Y FLOG FEDDYGOL

Rheolau'r Gystadleuaeth

- Mae'r gystadleuaeth yma yn agored i blant ysgol o'r meithrin i fyny hyd at oed ysgol uwchradd, yn cynnwys plant i aelodau'r Gymdeithas Feddygol.
- Dylai'r flog fod yn Gymraeg a rhwng 3-5 munud o hyd.
- Gellir cynnwys cyfweiliadau yn y flog ond rhaid cynnwys enwau a chaniatâd pob unigolyn (neu rhiant /warchodwr os o dan 18 oed) sy'n cymryd rhan.
- Rhaid cynnwys y ffurflen caniatâd atodol gyda phob cais.
- Dyddiad cau – 5yp, dydd Gwener 14eg o Orffennaf 2017.
- Dylid hela'r ceisiadau (flog a'r ffurflen ganiatâd) yn ddigidol at heno@tinopolis.com drwy ddefnyddio WeTransfer, gweler gyfarwyddiadau ar <https://wetransfer.com/>
- Hysbysir y deg gorau yn y ddau gategori – Cynradd ac Uwchradd erbyn 5yp, dydd Gwener 21 o Orffennaf 2017.
- Bydd y deg gorau o'r ddau gategori yn cael eu dangos yn ddyddiol ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol, Bodedern Awst 6ed -12eg 2017, ym Mhabell y Gymdeithas Feddygol.
- Bydd modd i ymwelwyr â phabell Y Gymdeithas Feddygol bleidleiso am y flog orau yn y ddau gategori.
- Bydd Dr Ann yn gwobrwyo'r enillwyr ar bnawn Gwener 11eg o Awst am 12 o'r gloch ym mhabell Y Gymdeithas Feddygol ar Faes yr Eisteddfod.
- Bydd yr enillwyr yn derbyn sic o £150 yr un ac yn cael gwahoddiad i gyflwyno eu gwaith ar raglen 'Pnawn da' gyda Dr Ann.



Ffurflen Gais Cystadleuaeth Y FLOG FEDDYGOL

Enw

Dyddiad Geni

Ysgol

Cyfeiriad ebost

Rhif Ffôn

Enw Rhiant neu Warchodwr

Cyfeiriad Rhiant neu Warchodwr

.....

.....

Yr wyf i (enw'r rhiant/warchodwr os o dan 18 oed)

yn rhoi caniatâd (enw'r plentyn os o dan 18 oed)

i gystadlu yng nghystadleuaeth y Flog Feddygol ac i'r gwaith fideo gael ei

arddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol Bodedern Awst 2017 ym mhabell

Y Gymdeithas Feddygol ac wedyn, os yn fuddugol ar raglen Prawn Da, S4C.

Dylai POB unigolyn sy'n cymryd rhan yn y flog lenwi'r ffurflen uchod